## C. ASESIAD EFFAITH PRAWFESUR GWLEDIG

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

Bydd y Bil yn cyflwyno trefn diogelwch adeiladau newydd yng Nghymru sy'n ymdrin â’r modd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu meddiannu a’u rheoli.

Bydd y drefn newydd yn cynnwys, gyda rhai eithriadau, pob adeilad preswyl sydd â dwy uned breswyl neu fwy, gan gynnwys rhannau preswyl adeiladau defnydd cymysg.

Bydd y drefn diogelwch adeiladau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n byw mewn adeiladau amlfeddiannaeth ym mhob ardal yng Nghymru.

Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub wedi cyfrannu at ddatblygu cynigion ar gyfer y Bil. Nid oes yr un ohonynt wedi nodi y gallai ein cynigion gael effaith wahaniaethol ar ardaloedd gwledig.

Ni fydd y Bil yn cael fawr o effaith ar

- Ddefnyddwyr a gweithwyr gwasanaethau.
- Yn benodol pobl wledig e.e. poblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion iaith
- Ffyrdd cul a mynyddoedd serth
- Nid yw'n berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu i ficrofusnesau
- Nid yw'r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffyrdd/rheilffyrdd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd da ar gyfer ffonau symudol
- Nid yw'r cynnig yn effeithio ar dlodi mewn ardaloedd gwledig, ond dylai ddod â budd i drigolion ledled y wlad waeth a ydynt yn byw mewn ardal wledig neu ardal drefol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal ymchwil o’r enw Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr i breswylwyr o bob math ac o bob grŵp daliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau sy'n dod o dan y drefn diogelwch adeiladau newydd. Amcan yr ymchwil oedd edrych faint mae preswylwyr yn ei wybod ac yn ei ddeall am ddiogelwch tân, eu hymddygiad ynghylch diogelwch tân a'u perthynas â'u rheolwyr adeiladau, hynny er mwyn rhannu preswylwyr yn deipolegau fel sail ar gyfer llunio ymyriadau diogelwch tân a deunydd cyfathrebu. Cynhaliwyd arolwg ar-lein o 1,562 o breswylwyr adeiladau aml-feddiannaeth yng Nghymru, ac yna 24 cyfweliad manwl gyda phreswylwyr a ddewiswyd o blith y rheini a ymatebodd i'r arolwg.

Mae Tabl 1 yn dangos bod mwyafrif mawr y fflatiau mewn ardaloedd trefol (86%).

**Tabl 1: Math o annedd yn ôl dosbarth trefol/gwledig, 2017-18**

| Math o annedd | Trefol (%) | Trefi a'r cyrion (%) | Pentrefi (%) | Pentrefi Bach ac Anheddau Ynysig (%) |
|---|---|---|---|---|
| Tŷ neu fyngalo | 65 | 11 | 16 | 8 |
| Fflat | 86 | - | 12 | - |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru

https://www.llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-dangosydd-canlyniadau

Mae Tabl 2 yn dangos bod fflatiau yn fwy niferus yn ne-ddwyrain Cymru, nag yn y Canolbarth a'r De-orllewin neu'r Gogledd.

**Tabl 2: Math o annedd yn ôl rhanbarth yng Nghymru, amcangyfrifon Cyfrifiad 2021**

| Rhanbarth | Tŷ neu fyngalo (%) | Fflat (%) |
|---|---|---|
| Y Gogledd | 23 | 19 |
| Y Canolbarth a'r De-orllewin | 30 | 25 |
| Y De-ddwyrain | 47 | 56 |
| Cyfanswm | 100% ‘ | 100% ‘ |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, ONS

Ffordd arall o ystyried yr effaith ar ardaloedd gwledig yw trwy edrych ar nifer yr adeiladau a ddaw o dan y bil mewn awdurdodau lleol gwledig a di-wledig (cymoedd, trefol ac eraill). Wrth gwrs, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol. Er enghraifft, mae sir wledig fel Sir Gaerfyrddin yn cynnwys tref Llanelli, tra bod sir drefol fel Abertawe yn cynnwys Penrhyn Gŵyr. Er

hynny, mae "A Statistical Focus on Rural Wales"[1] yn enwi 9 awdurdod lleol gwledig, yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth is na'r cyfartaledd.

Mae Tabl 3 yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r adeiladau categori 1 yng Nghymru yn ninasoedd Caerdydd ac Abertawe (83%). Dim ond 5% o adeiladau Categori 1 Cymru sydd mewn awdurdodau lleol gwledig.

Mae Tabl 4 yn dangos bod cyn lleied ag 15% o'r holl adeiladau categori 2 yng Nghymru yn yr awdurdodau lleol gwledig, a bod dros hanner ohonynt (55%) yng Nghaerdydd ac Abertawe. Eto i gyd, mae 30% o'r adeiladau categori 3 mewn awdurdodau lleol gwledig. Mae hyn yn cyfateb yn agos i gyfran y boblogaeth sy'n byw mewn awdurdodau gwledig (32%).

Mae Tabl 5 gyda data o StatsCymru, yn dangos bod 23% o'r Tai Amlfeddiannaeth hysbys ac amcangyfrifir bod 30% o'r holl Dai Amlfeddiannaeth yng Nghymru mewn awdurdodau lleol gwledig. Mae hyn ychydig yn is na chyfran y boblogaeth sy'n byw mewn awdurdodau lleol gwledig (32%).

Mae Tabl 6, gyda data'r ONS, yn dangos, er bod 35% o holl anheddau Cymru mewn awdurdodau lleol gwledig, dim ond 16% o'r tai amlfeddiannaeth sydd mewn awdurdodau lleol gwledig.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru ar Dai Amlfeddiannaeth yn uwch na ffigurau Cyfrifiad 2021 gan fod ddiffiniadau gwahanol o beth yw Tŷ Amlfeddiannaeth yn cael eu defnyddio.  Yn nata Llywodraeth Cymru, diffinnir Tŷ Amlfeddiannaeth fel adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei feddiannu gan bobl sy'n ffurfio o leiaf dwy aelwyd ac sy'n rhannu o leiaf un amwynder sylfaenol, tra bo'r ONS yn diffinio Tŷ Amlfeddiannaeth fel annedd lle ceir o leiaf tri thenant heb gysylltiad â'i gilydd yn rhentu eu cartref oddi wrth landlord preifat.

Gan fod y data'n dangos bod adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn llai cyffredin mewn awdurdodau lleol gwledig nag mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn rhai gwledig, rydym yn dod i'r casgliad bod yr effaith ar ardaloedd gwledig yn debygol o fod yn fach iawn.

---

[1] A Statistical Focus on Rural Wales
https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf

**Tabl 3. Adeiladau Categori 1 yn ôl awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Adeiladau Categori 1 | Poblogaeth |
|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol y Cymoedd, Trefol ac Eraill** | Caerdydd | 99 | 383,536 |
| | Abertawe | 50 | 246,742 |
| | Casnewydd | 7 | 163,628 |
| | Bro Morgannwg | 6 | 134,733 |
| | Sir y Fflint | 3 | 155,812 |
| | Tor-faen | 3 | 93,419 |
| | Wrecsam | 2 | 136,149 |
| | Merthyr Tudful | 1 | 58,593 |
| | Rhondda Cynon Taf | 0 | 241,178 |
| | Caerffili | 0 | 176,437 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 146,743 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 0 | 142,898 |
| | Blaenau Gwent | 0 | 67,356 |
| | **Cyfanswm** | **171** | **2,147,224** |
| **Awdurdodau Lleol Gwledig** | Gwynedd | 4 | 119,173 |
| | Ynys Môn | 3 | 69,291 |
| | Sir Benfro | 1 | 125,006 |
| | Conwy | 1 | 114,410 |
| | Sir Gaerfyrddin | 0 | 190,083 |
| | Powys | 0 | 134,439 |
| | Sir Ddinbych | 0 | 97,156 |
| | Sir Fynwy | 0 | 94,572 |
| | Ceredigion | 0 | 73,050 |
| | **Cyfanswm** | **9** | **1,017,180** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **180** | **3,164,404** |

Data: MapDataCymru

StatsCymru: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

**Tabl 4. Adeiladau Categori 2 a 3 yn ôl awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Adeiladau Categori 2 | Adeiladau Categori 3 | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol y Cymoedd, Trefol ac Eraill** | Caerdydd | 136 | 9,671 | 383,536 |
| | Abertawe | 114 | 4,413 | 246,742 |
| | Bro Morgannwg | 62 | 2,458 | 134,733 |
| | Casnewydd | 19 | 3,142 | 163,628 |
| | Rhondda Cynon Taf | 14 | 3,272 | 241,178 |
| | Blaenau Gwent | 13 | 902 | 67,356 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 8 | 2,352 | 142,898 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 1,725 | 146,743 |
| | Wrecsam | 3 | 2,316 | 136,149 |
| | Caerffili | 2 | 2,286 | 176,437 |
| | Sir y Fflint | 2 | 1,160 | 155,812 |
| | Tor-faen | 2 | 1,465 | 93,419 |
| | Merthyr Tudful | 1 | 358 | 58,593 |
| | **Cyfanswm** | **380** | **35,520** | **2,147,224** |
| **Awdurdodau Lleol Gwledig** | Sir Gaerfyrddin | 28 | 1,767 | 190,083 |
| | Sir Benfro | 12 | 2,006 | 125,006 |
| | Sir Ddinbych | 8 | 1,248 | 97,156 |
| | Ynys Môn | 7 | 919 | 69,291 |
| | Conwy | 6 | 2,846 | 114,410 |
| | Gwynedd | 4 | 2,025 | 119,173 |
| | Ceredigion | 3 | 1,457 | 73,050 |
| | Powys | 1 | 1,847 | 134,439 |
| | Sir Fynwy | 0 | 1,195 | 94,572 |
| | **Cyfanswm** | **69** | **15,310** | **1,017,180** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **449** | **50,830** | **3,164,404** |

Data: MapDataCymru

StatsCymru: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

**Tabl 5. Tai Amlfeddiannaeth yn ôl awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Tai Amlfeddiannaeth hysbys yn ardal yr awdurdod lleol | Amcangyfrif o'r holl Dai Aml-feddiannaeth yn ardal yr awdurdod lleol | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol y Cymoedd, Trefol ac Eraill** | Caerdydd | 6,418 | 7,000 | 383,536 |
| | Abertawe | 1,863 | 2,100 | 246,742 |
| | Rhondda Cynon Taf | 567 | 634 | 241,178 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 512 | 550 | 146,743 |
| | Bro Morgannwg | 488 | 520 | 134,733 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 444 | 444 | 142,898 |
| | Casnewydd | 311 | 416 | 163,628 |
| | Wrecsam | 256 | 420 | 136,149 |
| | Caerffili | 145 | 160 | 176,437 |
| | Merthyr Tudful | 50 | 50 | 58,593 |
| | Sir y Fflint | 46 | 400 | 155,812 |
| | Blaenau Gwent | 46 | 68 | 67,356 |
| | Tor-faen | 38 | 60 | 93,419 |
| | **Cyfanswm** | **11,184** | **12,822** | **2,147,224** |
| **Awdurdodau Lleol Gwledig** | Gwynedd | 808 | 1,000 | 119,173 |
| | Conwy | 723 | 850 | 114,410 |
| | Ceredigion | 613 | 690 | 73,050 |
| | Sir Gaerfyrddin | 434 | 434 | 190,083 |
| | Powys | 223 | 571 | 134,439 |
| | Sir Ddinbych | 218 | 1,345 | 97,156 |
| | Ynys Môn | 94 | 250 | 69,291 |
| | Sir Fynwy | 73 | 200 | 94,572 |
| | Sir Benfro | 64 | 90 | 125,006 |
| | **Cyfanswm** | **3,250** | **5,430** | **1,017,180** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **14,434** | **18,252** | **3,164,404** |

Data: StatsCymru – Tai amlfeddiannaeth yn ôl awdurdod lleol, 2022-23

StatsCymru: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

**Tabl 6. Tai Amlfeddiannaeth ac anheddau nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth yn ôl awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Tai Amlfeddiannaeth | Anheddau |
|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol y Cymoedd, Trefol ac Eraill** | Caerdydd | 3,673 | 152,266 |
| | Abertawe | 1,299 | 113,162 |
| | Rhondda Cynon Taf | 356 | 110,394 |
| | Casnewydd | 108 | 69,611 |
| | Wrecsam | 74 | 61,182 |
| | Sir y Fflint | 63 | 70,490 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 43 | 65,509 |
| | Caerffili | 39 | 80,173 |
| | Bro Morgannwg | 29 | 60,580 |
| | Tor-faen | 28 | 42,728 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 26 | 66,378 |
| | Blaenau Gwent | 17 | 32,847 |
| | Merthyr Tudful | 6 | 27,486 |
| | **Cyfanswm** | **5,761** | **952,806** |
| **Awdurdodau Lleol Gwledig** | Gwynedd | 482 | 62,739 |
| | Ceredigion | 414 | 36,330 |
| | Sir Gaerfyrddin | 77 | 89,327 |
| | Sir Benfro | 31 | 64,371 |
| | Powys | 28 | 66,838 |
| | Sir Ddinbych | 26 | 50,300 |
| | Ynys Môn | 25 | 36,192 |
| | Conwy | 24 | 57,960 |
| | Sir Fynwy | 23 | 43,434 |
| | **Cyfanswm** | **1,130** | **507,491** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **6,891** | **1,460,297** |

Ffynhonnell: ONS - Nifer yr anheddau sy'n dai amlfeddiannaeth (HMO)

## Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)

Mae'r Asesiad hwn o Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yn ofyn ar wahân i'r Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig ac mae'n ymwneud yn benodol â chymorth neu reoleiddio sy'n effeithio ar Amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, yn unol â Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Ers 17 Hydref 2023, mae wedi bod yn ofyn, pan fydd Gweinidogion Cymru yn cefnogi neu'n rheoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol[2], rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r ddyletswydd i reoli tir yn gynaliadwy. Mae'n hanfodol, felly, bod polisïau perthnasol yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol â'r ddyletswydd honno.

Cwestiynau i'w hystyried wrth benderfynu a oes angen i chi ystyried a / neu gwblhau Asesiad Effaith SLM:

1. A yw'ch polisi / gweithgaredd yn effeithio ar amaethyddiaeth? **Nac ydy**
2. A yw'r polisi/gweithgaredd yn gysylltiedig â chefnogi amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol? **Nac ydy**
3. A yw'r polisi/gweithgaredd yn gysylltiedig â rheoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol? **Nac ydy**

Os yw'r ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, bydd angen i chi ystyried effaith eich polisi (cymorth neu reoleiddio) yn ôl amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

**Asesiad Effaith SLM: Does dim angen cynnal asesiad**

---

Mae'n bwysig nodi bod gan "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" ystyron penodol fel y'u diffinnir yn y drefn honno yn adrannau 51 a 52 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Fe'u diffinnir hefyd yn y Canllawiau Asesu Effaith SLM er hwylustod cyfeirio.